**Beirniadaeth** 1af – Robin Goch – Y gwagle. Mae ymdrech arbennig yma i greu awyrgylch a chyfleu naws hynod y goedwig a'r modd y mae'n cynnig amddiffynfa rhag rhuthr a phryderon bywyd bob dydd. Wrth ganolbwyntio ar ddisgrifio'n synhwyrus agweddau ar fyd natur mae'r cyfan yn ein cysylltu'n nes â'r amgylchfyd naturiol. Mae gwallau yma ond mae yna ddehongli da o'r teitl.

**<u>Y Gwagle</u>**

**Fy amddiffynfa i**

A wyddoch chi unrhyw le mor arbennig â hyn? Coed sy'n ymestyn dros y darlun o wyrddni. Y coed sy'n amddiffyn y rhyddid teimlais y tro cyntaf mentrais i mewn. Y canghennau yn gwrthod y byd rhag fy mhoeni,oddi wrth yr holl bryderon yn ymosod arnaf fel llu o filwyr.

Clywir sŵn o angylion uwch fy mhen yn chwarae pob math o offerynnau. Y Titw Tomos Glas yn tiwnio'rtrympedd a'r Robin Goch yn canu'r clarinét. Ewch i mewn i gwrdd ar holl lwybrau fel nadroedd, yn gul ac yn plethu trwy'r coed. Fel gwreiddiau yn cysylltu'r coed fel un organeb oddi tano. Y dail o dan fy nhraed yn garped o liwiauamryliw, weithiau yn felyn, coch neufrown. Hyd yn oed wrth i'r carped newid trwy'r tymhorau i'r eira esmwytha'r glaswellt meddal. Mae'r goedwig dal i fod yn arbennig. Yr arogl o'r llwynogod a'r moch daear yn crwydro ar hyd y llawr wrth i'r goedwig dywyllu. Yn byrlymu wrth i oriau mân y bore dechrau oddi wrth y carafanau. Y carafanau ar hyd y lle. Llawn eraill sy'n profi rhyddid y goedwig. Yn blasu'r selsig a byrgyrs yn coginio ar y barbeciw. Wrth i'r carafanau codi'r sŵn, ewch yn ddyfnach i'r goedwig. Ewch i'r pwll ac eisteddwch ar y meinciau.

Edrychwch ar yr adar yn cymryd brêc o'u perfformiad, ac ymlaciwch. Edrychwchar y dŵr yn chwyrlio, llawn cylchau llydan. Y pryfed yn dawnsio ar hyd arwyneb y dŵr yn troelli a throelli. Yr hwyaid yn cwrdd â'i gilydd ar ôl dydd hiryn trafod am y dyddiau i ddod. Mae'r pwll hyd yn oed yn amddiffyn y goedwig rhag unrhyw fygythiad o dân yn dinistrio'r goedwig gadarn. Y tân sydd ym mhobman yn fywyd i ddinistrio fy mywyd ymlaciol. Y tân sy'n cael ei oleuo gan fy mhrydon ac ansicrwydd i fyw fy mywyd yn hyderus. Ond, yn y goedwig diflanna'r pryderon ac ansicrwydd i groesawu'r tawelwch. Yn agos i'r pwll mae hen amddiffynfa Rufeinig. Yr un oesoedd yn nôl a wnaeth amddiffyn eraill. Yr unig beth sydd ar ôl heddiw yw'r fainc unig ar dop ysbryd yr amddiffynfa. Edrychwch lawr a gwelwch rhyw dŷ gwyn. Y caeau o'igwmpas sydd yn newid wrth i'r tymhorau ddod a gadael. Fy nhŷ i o'r gorffennolyndrysor o atgofion fy mhlentyndod melys.Yn agos i'r goedwig mae sied Taid yn llonydd, fel ei fod yn sownd yn y gorffennol.Y gotyn hongian, y rhifau mor glir a ddoe ar y waliau, y bwced rhydlyd a'r llirhydlydyn segur yn ei unfan. Yn orchudddros popeth, llafur cariad y gwe pry cop wedi gorchuddio ei waith dros y blynyddoedd. Wnâirhannu fy amddiffynfa, gyda'r gobaith i helpu chi rhoi'r tân allan am gyfnod i groesawu'r tawelwch yn eich bywydau chi.

Teimlaf yrhyddid oddi wrth fy mywyd byrlymus. Croesawaf yrymlacdod a thawelwch. Diolchaf am hafan cynefin y goedwig o straen bywyd pob dydd.

Robin Goch